OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2607 (Cy.210)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*24 Medi 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*28 Medi 2009*
Yn dod i rym - -	*20 Hydref 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 121, 130, 132 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 20 Hydref 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007(**2**).

Diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau

2. Yn rheoliad 2 o'r prif Reoliadau (dehongli) mewnosoder yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor —

"ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**3**);".

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2007/121 (Cy.11), yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2009/1175 (Cy.102).
(**3**) 2006 p.42.

Diwygio rheoliad 3 o'r prif Reoliadau

3.—(1) Mae rheoliad 3 o'r prif Reoliadau (cyflenwi cyffuriau a chyfarpar gan fferyllwyr) yn cael ei ddiwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn lle paragraff (10) rhodder y canlynol—

"(10) Rhaid i fferyllydd sy'n codi ac yn casglu ffi—

(a) o dan baragraff (2) oddi wrth neu ar ran claf sy'n berson a ddisgrifir yn rheoliad 11A(1), os gofynnir iddo gan y claf neu gan gynrychiolydd y claf, ddarparu derbynneb am y swm a gafwyd yn y ffurf a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru;

(b) o dan baragraff (2) neu (5) oddi wrth neu ar ran claf nad yw'n berson a ddisgrifir yn rheoliad 11A(1), os gofynnir iddo gan y claf neu gan gynrychiolydd y claf, ddarparu derbynneb am y swm a gafwyd ar y ffurflen a ddarparwyd at y diben a rhaid i'r ffurflen honno gynnwys ffurfiau o ddatganiad yn cefnogi cais ar gyfer ad-daliad a gwybodaeth o ran i bwy y dylai cais am ad-daliad gael ei wneud.".

Diwygio rheoliad 4 o'r prif Reoliadau

4.—(1) Mae rheoliad 4 o'r prif Reoliadau (cyflenwi cyffuriau a chyfarpar gan feddygon) yn cael ei ddiwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn lle paragraff (7) rhodder y canlynol—

"(7) Rhaid i feddyg sy'n codi ac yn casglu ffi o dan baragraff (2)—

(a) oddi wrth neu ar ran claf sy'n berson a ddisgrifir yn rheoliad 11A(1), os gofynnir iddo gan y claf neu gan gynrychiolydd y claf, ddarparu derbynneb am y swm a gafwyd yn y ffurf a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru;

(b) oddi wrth neu ar ran claf nad yw'n berson a ddisgrifir yn rheoliad 11A(1), os gofynnir iddo gan y claf neu gan gynrychiolydd y claf, ddarparu derbynneb am y swm a gafwyd ar y ffurflen a ddarparwyd at y diben a rhaid i'r ffurflen honno gynnwys ffurfiau o ddatganiad yn cefnogi cais ar gyfer ad-daliad a gwybodaeth o ran i bwy y dylai cais am ad-daliad gael ei wneud.".

Diwygio rheoliad 8 o'r prif Reoliadau

5. Yn rheoliad 8 o'r prif Reoliadau (esemptiadau), ar ôl paragraff (1)(d) mewnosoder y canlynol —

"(da) person sydd â thystysgrif esemptio ddilys a ddyroddwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol ar y sail bod y person yn cael triniaeth am—

(i) cancr;

(ii) effeithiau cancr, neu

(iii) effeithiau triniaeth am gancr,

pan ddefnyddir y dystysgrif ynghylch cyffuriau neu gyfarpar a gyflenwir ar neu ar ôl 1 Tachwedd 2009.

(db) person sydd â thystysgrif esemptio ddilys a ddyroddwyd ar unrhyw un o'r seiliau yn is-baragraff (da) o dan drefniadau cyfatebol sy'n cael effaith yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon pan ddefnyddir y dystysgrif ynghylch cyffuriau neu gyfarpar a gyflenwir ar neu ar ôl 1 Tachwedd 2009.".